OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 488 (Cy. 113)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llanrwst, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *5 Mai 2020* |
| *Yn dod i rym* | *11 Mai 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Llanrwst, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 11 Mai 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 11 Mai 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw'r darn o gefnffordd yr A470 Maentwrog i Fan i'r Dwyrain o Gonwy sy'n ymestyn o'i chyffordd â Ffordd Pari hyd at ei chyffordd â'r A548 Heol

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Dinbych a'r darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A548 Heol Dinbych hyd at ei chyffordd â'r B5106 y Bont Fawr.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**5.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 5 Mai 2020

*Nicci Hunter*
Arweinydd Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru